**CYFARFOD COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU A GYNHALIWYD AM 10:00 AM AR 30 HYDREF 2024 TRWY MS TEAMS**

**Yn bresennol:** Bev Smith (Cadeirydd), Michael Imperato (Dirprwy Gadeirydd) Dianne Bevan, Frank Cuthbert, Ginger Wiegand, Bethan Williams Price

**Swyddogion CDFfC a oedd yn bresennol:** Prif Weithredwr; Tom Jenkins; Dave Carr; Rheolwr Arolygon a Swyddog Cymorth Tîm.

**Gwestai:** Cynghorydd Cyfreithiol

**Amser dechrau: 10:00**
**Amser gorffen: 13:15**

**1. Datganiadau Buddiannau**

**1.1.** Ni wnaed unrhyw Ddatganiadau Buddiannau.

**2. Gwybodaeth gan y Cadeirydd**

**2.1.** Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r Comisiwn am y newid fformat ar gyfer y cyfarfod ar 30 Hydref 2024 oherwydd y drafodaeth yr oedd angen ei chynnal yn ymwneud â'r newidiadau arfaethedig i'r polisi enwi ar gyfer Arolwg y Senedd.

**3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn ar gynhaliwyd ar 25 Medi 2024**

**3.1.** **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Medi 2024 yn gofnod cywir o'r materion a ystyriwyd, yn amodol ar fân newidiadau.

**4. Materion yn Codi**

**4.1.** **Penderfynwyd** derbyn yr Adroddiad gan nodi unrhyw faterion i'w trafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod, a nodwyd cynnydd cyfredol ar y materion canlynol:

**4.2.** **(Mater 1) Nodwyd** bod y Comisiwn wedi cael 1 cais Rhyddid Gwybodaeth rhwng 19 Medi 2024 a 23 Hydref 2024. Mae hyn yn ymwneud ag offerynnau cyfryngau cymdeithasol a ddefnyddir gan y Comisiwn.

**4.3.** **(Mater 2) Nodwyd** bod y Comisiwn yn cynnal Arolygon Cymunedol ar gyfer Abertawe a Sir Benfro ar hyn o bryd. Mae rhagor o fanylion wedi'u cynnwys mewn eitem agenda ar wahân.

4.4. **(Mater 3) Nodwyd** bod copi diwygiedig o'r brydles wedi dod i law gan LIC a bod yr ystafell gynadledda yn CP2 wedi'i sefydlu erbyn hyn. Mae BOF wedi ymweld â swyddfa'r Comisiwn i ystyried symud yr eitemau llai. Mae dodrefn swyddfa diangen hefyd wedi'u gwaredu trwy gwmni symud a BHF. Rhagwelir y bydd staff yn debygol o allu defnyddio'r swyddfa newydd o'r wythnos yn dechrau ar 11 Tachwedd ymlaen.

4.5. **(Mater 4) Nodwyd** bod y Comisiwn wedi cael cwyn gan Gymdeithas yr Iaith yn ymwneud ag ymagwedd y Comisiwn at enwi etholaethau'r Senedd. Gofynnwyd am gyngor cyfreithiol annibynnol ar y mater hwn a chynigiwyd, ar sail yr ymatebion a gafwyd yn ymwneud ag enwau'r etholaethau, y dylid diwygio'r polisi enwi. Ar ôl trafodaeth gyda Jorren Knibbe, cytunwyd ar y polisi arfaethedig, yn amodol ar fân newidiadau. Byddai'r polisi hwn yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad cynigion diwygiedig a byddai'r Comisiwn yn gwahodd ymatebion i'r polisi. Byddai'r Comisiwn hefyd yn cymhwyso'r polisi i'r ymarfer enwi ar gyfer eitem agenda Arolwg y Senedd.

4.6. **(Mater 5) Nodwyd** bod y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai wedi cytuno i gynnal ymchwiliad i rôl, llywodraethu ac atebolrwydd y sector cynghorau cymuned a thref.
Cylch gorchwyl yr ymchwiliad yw archwilio:
Rôl a gwerth cynghorau cymuned a thref yng Nghymru;
A yw'r sector yn addas i'r diben mewn tirwedd llywodraeth leol sy'n esblygu;
Trefniadau llywodraethu a chraffu a'u heffaith ar atebolrwydd a thryloywder;
Cwmpas technoleg ddigidol a thechnoleg newydd i wella prosesau penderfynu, darparu gwasanaethau a chyfranogiad mewn prosesau democrataidd lleol;
Sut caiff pwerau a chyfrifoldebau newydd ar gyfer yr haen hon o lywodraeth eu defnyddio i gefnogi cymunedau
Mae'r Comisiwn wedi cyflwyno ymateb ysgrifenedig.

## 5. Y Rhaglen Bontio (i'w thrafod)

5.1. **Nodwyd** bod y Comisiwn wedi trafod trosglwyddiad trefnedig PSBA i swyddfeydd Llywodraeth Cymru ym Mharc Cathays yr wythnos nesaf a'r effaith y bydd yn ei chael ar staff.

## 6. Y Flaenraglen Waith

6.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad ar y Flaenraglen Waith dyddiedig 23 Hydref 2024 gan y Prif Weithredwr.

6.2. **Nodwyd** y bu'r ymarfer recriwtio ar gyfer y Pennaeth Iechyd Democrataidd yn llwyddiannus, gyda dyddiad dechrau ym mis Ionawr 2025.

**6.3.** **Nodwyd** bod cynllun olyniaeth y bwrdd wedi'i ddiweddaru a bod y dyddiadau gorffen wedi'u cadarnhau.

**6.4.** Rhoddodd y Cadeirydd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Comisiwn am y drafodaeth a gafwyd ynghylch y Platfform Gwybodaeth a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r prosiect. Mae CDFfC a LIC wedi cytuno y bydd bwrdd gweithredu prosiect yn cael ei sefydlu i hwyluso datblygiad y platfform.

**6.5.** **Cytunodd** aelodau'r Comisiwn ar Bolisi Recriwtio'r Prif Weithredwr, yn amodol ar fân ddiwygiad yn ymwneud â'r cyfnod prawf.

**6.6.** **Nododd** aelodau'r Comisiwn Adroddiad y Flaenraglen Waith.

## 7. Adroddiad ar Gyllideb 2024-25

**7.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad Monitro'r Gyllideb dyddiedig 30 Hydref 2024 gan y Rheolwr Cyllid, a oedd yn dangos sefyllfa'r gyllideb hyd at ddiwedd mis Medi 2024.

**7.2.** **Nodwyd** bod tanwariant o £45,360 yng ngwariant arian parod y Comisiwn yn erbyn sefyllfa'r gyllideb hyd at 30 Medi 2024.

**7.3.** **Nodwyd** bod tanwariant o £42,198 yng nghyllideb y Comisiwn ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben ar 30 Medi 2024.

**7.4.** **Nododd** aelodau'r Comisiwn sefyllfa'r gyllideb hyd at ddiwedd mis Medi 2024.

## 8. Rheoli Risg

**8.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i Gofrestr Risg CDFfC dyddiedig 30 Hydref 2024.

**8.2.** **Nododd** a **chytunodd** y Comisiwn ar y Gofrestr Risg, yn amodol ar y newidiadau a wnaed yn nghyfarfod diwethaf y Comisiwn.

## 9. Cofrestr Risg Blaenraglen Waith CDFfC

**9.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i Gofrestr Risg Blaenraglen Waith CDFfC dyddiedig 30 Hydref 2024.

**9.2.** **Nododd** a **chytunodd** y Comisiwn ar Gofrestr Risg Blaenraglen Waith CDFfC, yn amodol ar y newidiadau a wnaed yn nghyfarfod diwethaf y Comisiwn.

## 10. Adroddiad Cynnydd Arolygon

**10.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad Cynnydd Arolygon dyddiedig 22 Hydref 2024. **Nodwyd** bod y comisiwn yn cynnal Arolygon Cymunedol yng Ngheredigion, Abertawe a Sir Benfro ar hyn o bryd.

**10.2.** **Nodwyd** bod arolwg Ceredigion wedi'i gwblhau. Cyhoeddwyd yr Adroddiad Terfynol ar 9 Hydref 2024.

**10.3.** **Nodwyd** y bydd adroddiad terfynol arolwg Abertawe yn cael ei gyhoeddi ar 5 Tachwedd.

**10.4.** **Nodwyd** y bydd adroddiad terfynol arolwg Sir Benfro yn cael ei drafod yn y cyfarfod hwn.

**10.5.** **Nodwyd** y bydd argymhellion arolwg Sir Gaerfyrddin yn cael eu trafod yn y cyfarfod ym mis Tachwedd.

**11. Arolwg Cymunedol Sir Benfro – Adroddiad Terfynol**

**11.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i Adroddiad Terfynol Arolwg Cymunedol Sir Benfro dyddiedig 23 Hydref 2024 gan y Pennaeth Polisi a Rhaglenni.

**11.2.** Penderfynodd y Comisiwn ar yr enwau canlynol:

- Maenordeifi
- Pencaer
- Llanstadwel
- Monkton a De St Mary

**12. Arolwg y Senedd – Adroddiad Cynigion Diwygiedig Drafft**

**12.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r Opsiynau ar gyfer Cynigion Diwygiedig a'r Adroddiad Cynigion Diwygiedig yn seiliedig ar argymhellion dyddiedig 22 Hydref 2024 gan y Pennaeth Polisi a Rhaglenni.

**12.2.** Ystyriodd y Comisiwn yr opsiynau a chytunodd ar gynllun i ffurfio Cynigion Diwygiedig y Comisiwn. Cytunwyd ar newidiadau i enwau etholaethau a mwyafrif yr etholaethau'n cael un enw Cymraeg, yn unol â'r polisi enwi newydd fel y'i cytunwyd gan y Comisiwn cyn y cyfarfod.

**12.3.** **Nodwyd** Papur Opsiynau'r Senedd a **chytunodd** y Comisiwn ar gynllun o gynigion diwygiedig.

**13. Calendr Digwyddiadau**

**13.1.** Ystyriwyd y Calendr Digwyddiadau.

**14. Unrhyw fater perthnasol arall**

**14.1** Ni nodwyd unrhyw fater perthnasol arall.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf:** 27 Tachwedd 2024